**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**Chwefror 4ydd, 2014**

**Presennol:** Huw Antur (Cadeirydd), Dewi Jones (is gadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Alan Jones Evans (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Alwyn Roberts, Ian Trow

1245 Cydymdeimlwyd gyda theuluoedd Bryn Gwyn o golli'r Bonheddwr Arwyn Roberts.

1246 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1247 Nid oedd datganiadau buddiant.

1248 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 7fed 2014.

1249 Materion yn codi o'r Cofnodion heb fod ar yr Agenda:

1240: Derbyniwyd gwybodaeth am y trefniant gyda chontractwyr Llwybr Tegid a'u defnydd o'r maes parcio wrth y fynwent. Derbyniwyd yn ddiolchgar iawn cynnig hael Brodyr Evans parthed lledu'r fynedfa bresennol a chaledu'r llwybr i'r fynwent. **Gweithredu: Clerc**

1243: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod nesaf gyda Chyngor Tai Clwyd a Chartrefi Cymunedol Gwynedd a chafwyd trafodaeth eto ar denantiaeth fflatiau.

1245.6 Derbyniwyd neges oddi wrth Ceri Davies, Dŵr Cymru yn cydnabod fod problem Tŷ'n Ddôl ar y rhestr i gael sylw efallai yn 2015-16. Diolchwyd i Elfyn Llwyd hefyd am godi'r mater.

1250 Yn ei adroddiad dywedodd y Cynghorydd Sir fod ymgyrch i geisio osgoi methu'r targed ail-gylchu a osodwyd ar Wynedd drwy ystyried casglu'r biniau gwyrdd bob tair wythnos yn lle bob pythefnos. Byddai hyn yn rhoi pwysau ar drigolion llai cyfrifol i ail gylchu pob peth posib. Mae dirwy o £200 ar Gyngor Gwynedd am bob tunnell dros y cwota sydd yn mynd i ddirlenwad. Byddai hyn yn y pen draw yn arwain at lefel is o wasanaethau ar gyfer pawb yn y Sir. Soniodd Alan Jones Evans hefyd am y trafodaethau sy'n parhau am gyd-brynu ynni (trydan). Hefyd bydd Gwynedd yn rhoi cyngor ac arweiniad i grwpiau o gymdogion i brynu olew a nwy ar y cyd.

1251 Ystyriwyd goblygiadau Adroddiad yr Arglwydd Williams ar Lywodraeth Leol a nodwyd y cyfeiriad at waith Partneriaeth Penllyn yn yr Adroddiad. Cytunwyd i ysgrifennu at Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a Dafydd Elis Tomos AM i fynegi pwysigrwydd cael un llais cryf dros gymuned. **Gweithredu: Clerc**

1252 Derbyniwyd Adroddiad o gyfarfod Ardal Un Llais Cymru gan Huw P Roberts. Roedd Sioned Williams (Partneriaeth Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd) wedi rhoi anerchiad ar strategaeth i dyfu'r economi yn lleol gan greu amodau ffafriol i fusnesau

cynhenid. Trafodwyd hefyd y tebygolrwydd y bydd gwaith dad-gomisiynu Trawsfynydd yn dod i ben oherwydd diffyg arian mewn gorsafoedd eraill. Bu trafodaeth hefyd ar wefannau'r cynghorau cymuned. Diolchwyd i Huw Pierce Roberts am gynrychioli'r Cyngor.

1253 **Materion Eiddo'r Cyngor**

i. Toiledau Cyhoeddus:

a) Mae Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf wedi arwyddo'r Cytundeb Trosglwyddo gyda Chyngor Gwynedd ac wedi ymateb yn gadarnhaol i'r memorandwm o ddealltwriaeth.
b) **MATER MEWNOL:** Dewiswyd contractwr i wneud y gwaith angenrheidiol ar y ffenestri.
c) Cytunwyd i gymryd camau pellach ar ôl y lladrad a fu yn ddiweddar o flwch casglu yn y toiledau.

ii. Adroddodd Rhodri Jones ei fod wedi trin yr eiddew yn Lloches bws y Lôn a dywedodd fod y lloches mewn cyflwr da.

1254 **Materion ariannol**

**i.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

**ii.** Awdurdodwyd y Swyddog Ariannol i dalu anfonebau'r mis: offer plymio i'r toiledau, trydan y toiledau, ymgymerwyr, costau'r clerc, costau teithio a Chronfa'r Henblas.

**iii.** Dychwelwyd TAW i goffrau'r Cyngor; hefyd daeth ad-daliad Cyngor Gwynedd i'r Cyfrif Claddu.

**iv.** Cymeradwywyd bod ymgeiswyr yn defnyddio'r ffurflen "Cais am gymorth ariannol" er mwyn gwella atebolrwydd y Cyngor wrth ymdrin ag arian cyhoeddus. **Gweithredu: Clerc**

1255 Gwnaethpwyd trefniadau at y Noson Goffi Blynyddol: "Stori Dau Gefnder", sef hanes dau o Gwm Cynllwyd a aeth i'r Rhyfel Mawr, gan Beryl Hughes Griffiths i ddilyn lluniaeth gan Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched 11/3/14 am 7.00 yr hwyr. Pris mynediad yn £5 (£1 i blant ysgol wrth y drws) a'r elw at Gymdeithas Alzheimers a Tenovus. Cyfraniad y Cynghorwyr: £6. Rhannwyd tocynnau i'w gwerthu a diolchwyd i Beryl Hughes Griffiths am ei pharodrwydd i draddodi'r ddarlith.

1256 **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned**

i. Cododd aelod o'r cyhoedd gonsyrn am y parcio wrth y Post a thrafferthion wrth safle troi nôl y bws. Nodwyd fod y materion hyn wedi cael cryn sylw yn barod gan Gyngor Cymuned Llanuwchllyn a chan Swyddog o Gyngor Gwynedd.

ii. Mynegwyd pryder nad ydyw ffosydd yn cael eu clirio fel ag yn y gorffennol ac y gall hyn arwain at broblemau dybryd yn arbennig pan fo rhew. Addawodd Alan Jones Evans drafod y mater gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.

1257 **Partneriaeth Penllyn**: Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a gyfeiriodd at ddwy sesiwn agored yn ddiweddar yn yr Henblas a esgorodd ar gryn ddiddordeb. Bydd hysbyseb yn y Wasg leol ac yn ehangach yn gwahodd ceisiadau ffurfiol am ofod yn yr Henblas erbyn diwedd Mawrth. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar brisiau'r gwaith adeiladu.

1258 **Gohebiaeth:**

**1. Parc Cenedlaethol Eryri:**

i. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gynllun trydan dŵr Nant Eglwysarn, Dolhendre. Cytunwyd i holi Swyddog y Llwybrau Cyhoeddus a oedd y bont yn rhan o'r llwybr cyhoeddus traddodiadol. **Gweithredu: Clerc**

ii. Derbyniwyd gwybodaeth am Ymgynghoriad ar gynlluniau i arbed £872,000 dros y ddwy flynedd nesaf. Cytunwyd i ymateb i'r ymgynghoriad trwy awgrymu datganoli rheolaeth meysydd parcio i'w rhedeg ar y cyd gyda grwpiau cymunedol er mwyn cynyddu'r incwm. **Gweithredu: Clerc**

*iii* Cymeradwywyd Cais NP5/71/377A i godi adeilad amaethyddol yng Nghwm Ffynnon, Cynllwyd. **Gweithredu: Clerc**

iv Cymeradwywyd Cais NP5/71/LB365 i newidiadau ac estyniad ar gyfer llety gwyliau ac ystorfa amaethyddol yn Rhyd y Bod, Cynllwyd. Cytunwyd i dynnu sylw Parc Cenedlaethol Eryri at y ffaith mai'r enw traddodiadol a'r enw ar fapiau yw Rhyd y Bod (yn cyfeirio mae'n bosibl at "boda", yn debyg i'r enw Nant y Barcud yn yr un cwm). **Gweithredu: Clerc**

**2 Gwynedd:**

*i.* Nodwyd derbyn copi o holiadur Cyngor Gwynedd am ail-gylchu.

*ii.* Nodwyd derbyn gwybodaeth gan Reolwr Cefn gwlad a Mynediad am adolygu categorïau llwybrau cyhoeddus trwy Wynedd.

**3 Heddlu:**

i. Nodwyd derbyn gwybodaeth am Gynllun Heddlu a Throsedd.

ii. Nodwyd derbyn gwybodaeth am ddigwyddiad 'Creu'r Cysylltiad' gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru - 20.2.14

iii. Nodwyd derbyn gwybodaeth am Gynllun Trechu Trosedd i bobl ifanc 5-18 oed (trosglwyddwyd i sylw Catrin Roberts fel Llywodraethwr yr ysgol gynradd)

**4 Llywodraeth Cymru:**

**5 Un Llais Cymru:**

**i.** Nodwyd i'r Clerc ymateb i Holiadur ITV am safleoedd claddu

ii Derbyniwyd copïau o "Y Llais"

iii. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar newidiadau i'r system gynllunio.

iv Nodwyd derbyn gwybodaeth am benodi Aelodau i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

**6 Eraill:**

i. Er nad ydyw'r mater yn berthnasol i Cyngor Cymuned Llanuwchllyn , nodwyd llythyr gan asiant tir yn mynegi fod Ystâd y Goron yn gwahodd partneriaid i wneud gwaith trydan dŵr yn Nant y Moch, Afon Aled, Afon Goedol, Afon Cracwellt a Llyn Cwellyn

ii. Nodwyd derbyn e-bost parthed gohirio llawdriniaethau oddi wrth Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 4/3/14 yn y neuadd, gyda'r Is-gadeirydd yn y gadair.